



24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan  
Cardiff / Caerdydd  
CF11 9LJ  
Tel / Ffôn: 029 20 320500  
Fax / Ffacs: 029 20 320600  
Email / Epost: wales@wao.gov.uk  
www.wao.gov.uk

Ms Jocelyn Davies AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Dyddiad: 25 Mawrth 2015  
Ein cyf: MP/2299/fgb  
Tudalen: 1 o 1

*Ammysgl Cadeirydd,*

**YMCHWILIAD I'R BROSES O YSTYRIED PWERAU: OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Diolch am y cyfle i ddarparu nodyn yn egluro mater a grybwyllwyd gennyf yn ystod sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor ar 11 Mawrth 2015.

Wrth ymateb i gwestiwn Julie Morgan ynghylch pa un a chaiff argymhellion yr Ombwdsmon weithiau eu hanwybyddu (paragraff 104 o'r trawsgrifiad), dywedais na chaiff argymhellion yr Ombwdsmon, hyd y gwn i, eu hanwybyddu yn y rhan fwyaf o sectorau (paragraff 106). Erbyn meddwl, mae hynny, os rhywbeth, yn danddatganiad, a nodaf i'r Ombwdsmon ddweud yn ei bapur i'r Pwyllgor, dyddiedig 21 Ionawr 2015, nad oes unrhyw ddarparwr gwasanaethau cyhoeddus, hyd yma, wedi gwrthod rhoi argymhelliad ar waith (para 2.49(f) o'r papur hwnnw). Fodd bynnag, awgrymais hefyd fod un sector a oedd yn dueddol o anwybyddu argymhellion, ond sylweddolais tra'n siarad fy mod yn gwrthddweud fy hun braidd (paragraff 108). Yr hyn yr oeddwn yn ceisio ei ddweud oedd bod yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol (ar gyfer Lloegr) wedi teimlo'r angen ar ddau achlysur yn 2014 i gyflwyno hysbysiadau canfyddiadau andwyol i ddarparwyr gofal cymdeithasol preifat am eu bod wedi methu â chydymffurfio ag argymhellion.

Yn dilyn cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ers mis Tachwedd 2014, mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru awdurdodaeth debyg mewn perthynas â darparwyr gofal cymdeithasol preifat i'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol yn Lloegr. Yn amlwg, mae braidd yn gynnar dweud a yw'r sector hwnnw yn peri problemau yng Nghymru, ond nodaf i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ddweud yn ei bapur i'r Pwyllgor, dyddiedig 21 Ionawr 2015, y gallai fod yn anos sicrhau cydymffurfiaeth ymhlith darparwyr gofal cymdeithasol na chyrrff cyhoeddus (para 2,49(f) o'r papur hwnnw).

Gobeithio bod yr esboniad hwnnw'n ddefnyddiol, ac ymddiheuraf am fy niffyg eglurder yn y sesiwn.

*Tu gywir,*

**MARTIN PETERS**  
**RHEOLWR CYDYMFFURFIAETH**